Taflen ffeithiau Triniaeth Ysbyty

Ombwdsmon
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Taflen ffeithiau yw hon am y gofal a'r driniaeth a ddarperir gan Ysbytai'r GIG. Dylid ei darllen ar y cyd â'n taflen wybodaeth gyffredinol ynghych ein gwasanaeth.

Gall Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ystyried cwynion ynghylch y gofal a'r driniaeth a dderbynnir gan gleifion gan ysbytai'r GIG neu gliniau un ai fel cleifion preswyl neu gleifion allanol. Dylai cwynion gan gleifion neu eu cynrychiolwyr gael eu dwyn, yn y man cyntaf, i sylw'r Bwrdd Iechyd Lleol sy'n gyfrifol am reoli'r ysbyty. Gallwch un ai gwyno'n bersonol i aelod o staff yn y Bwrdd Iechyd neu gallwch ysgrifennu at y Bwrdd Iechyd gyda manylion eich cwyn. Dylai'r Bwrdd Iechyd wedyn ymchwilio i'ch pryderon ac ymateb i chi'n ysgrifenedig – fel arfer o fewn oddeutu pedair wythnos.

Os ydych yn parhau'n anhapus â'r ymateb a gewch gan y Bwrdd Iechyd, mae dau ddewis yn agored i chi. Gallwch ddewis gwneud cais am adolygiad o'ch cwyn gan berson lleyg annibynnol a benodir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Neu gallwch gysylltu â'r Ombwdsmon yn uniongyrchol ar y cam hwn.

Yr hyn gall yr Ombwdsmon ei wneud

Gall yr Ombwdsmon edrych ar y gofal dderbyniodd y claf a gofyn i'w gynghorwyr clinigol ei hun i ystyried a oedd y driniaeth a ddarparwyd yn rhesymol. Mae enghreifftiau o'r hyn y gall ei ystyried yn cynnwys y canlynol:

- barn glinigol wael
- methiant i ddarparu triniaeth i safon resymol
- gofal nyrsio is-safonol
- cadw cofnodion gwael
- esgeulustod

Gall yr Ombwdsmon hefyd ystyried a fu i staff y BILl ymdrin â chi mewn modd rhesymol. Gall enghreifftiau o hyn gynnwys:

- anfoesgarwch a mathau eraill o ymddygiad amhroffesiynol
- colli nodiadau meddygol a methiannau gweinyddol eraill
- ymdrin â chwynion mewn modd anfoddhaol

Os bydd yn canfod i'r driniaeth a ddarparwyd syrthio'n is na safon resymol neu y bu rhai methiannau gweinyddol, gallai argymell fod y Bwrdd Iechyd yn cymryd camau i ddatrys y sefyllfa cyn belled ag y bo'n rhesymol bosibl.

Mae'r Ombwdsmon yn annibynnol ac yn ddiduedd. Ni all orchymyn i gyrff cyhoeddus weithredu ar ei argymhellion – ond, yn ymarferol, y maent yn gwneud hynny bron bob tro.

Yr hyn nad yw'r Ombwdsmon yn gallu ei wneud

Ni all:

- ymchwilio i gwynion ynghylch triniaeth mewn sefydliadau preifat megis ysbytai preifat a chartrefi gofal neu nyrsio preifat oni bai fod y driniaeth yn cael ei darparu ar ran y GIG yng Nghymru;

- dod i ymwneud â thriniaeth neu ofal parhaus cleifion i'r graddau fod yr Ombwdsmon yn cael cais i ymyrryd mewn gofal cyfredol neu ddarparu "ail farn";

- cwestiynu yr hyn sydd yn ei farn ef yn farn glinigol resymol hyd yn oed os nad ydych yn cytuno â'r penderfyniad clinigol hwnnw.

Materion i gadw mewn cof

Bydd angen i'r Ombwdsmon farnu a oedd y driniaeth / gofal a ddarparwyd o safon resymol ac yn briodol ar gyfer y sefyllfa lle y'i darparwyd. Er enghraifft, ni fyddai gofal a ddarparwyd mewn ysbyty cyffredinol yn cael ei farnu yn erbyn y safonau a fyddai'n berthnasol mewn uned arbenigol.

Gwybodaeth bellach

Eich **Cyngor Iechyd Cymuned** lleol (CIC) – gall ddarparu cymorth a chefnogaeth yn rhad ac am ddim wrth i chi wneud cwyn. Gellir cael manylion eich CIC lleol o'ch llyfr ffôn lleol. Fel arall, mae modd cael gafael arnynt drwy wefan **Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru** yn www.patienthelp.wales.nhs.uk neu eu llinell gymorth ar 0845 6447814.

Efallai y gall eich **Bwrdd Iechyd** lleol eich helpu hefyd. Gellir canfod manylion Bwrdd Iechyd lleol eich ardal chi yn www.wales.nhs.uk/directory.cfm

Mae enghreifftiau o achosion yr edrychwyd arnynt gan yr Ombwdsmon i'w gweld ar ein gwefan. Gweler www.ombudsman-wales.org.uk

Os ydych yn ansicr a fyddai'r Ombwdsmon yn gallu edrych i mewn i'ch cwyn, cysylltwch â ni:

- **ffoniwch** 0845 601 0987;
- **e-bostiwch** holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk;
- **ewch i'r wefan** www.ombwdsmon-cymru.org.uk;
- **ysgrifennwch at:** Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
  1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed CF35 5LJ